

## Canllawiau Ffurflen Adnabod Myfyrwyr y Cyngor Optegol Cyffredinol

Darllenwch y camau'n fanwl i wneud yn siŵr y bydd y llun neu'r prawf adnabod ardystiedig yn cael ei dderbyn.

### Pwy all ardystio fy manylion adnabod?

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried y pwyntiau isod cyn dewis eich ardystiwr.

- ✓ Yn achos gweithwyr proffesiynol cofrestredig, mae angen eu rhif cofrestru arnom a rhaid bod modd dod o hyd i'r rhif hwn ar gofrestr swyddogol y proffesiwn hwnnw er mwyn i ni allu cadarnhau pwy ydynt.
- ✓ Ar gyfer proffesiynau eraill, mae'n ofynnol i ni gadarnhau pwy ydynt drwy wefan swyddogol. Rhaid i ni allu gweld manylion eich ardystiwr ar y wefan swyddogol.
- ✓ Does **dim modd** i'r ardystiwr fod wedi ymddeol.
- ✓ Rhaid i'r ardystiwr fod wedi eich adnabod ers dros 2 flynedd. Ac eithrio aelod o staff addysgu yn y man lle'r ydych yn astudio eich cwrs optometreg neu opteg fferyllol.
- ✓ Does **dim modd** i'r ardystiwr fod yn perthyn i chi, bod mewn perthynas â chi, na byw yn yr un cyfeiriad â chi.
- ✓ Gall fod yn anodd cadarnhau manylion ardystiwr nad yw'n dod o'r DU. Ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU yn ddiweddar, efallai yr hoffech ystyried gofyn i aelod o staff addysgu yn y man lle'r ydych yn astudio eich cwrs optometreg neu opteg fferyllol, gan y byddwn yn eu derbyn fel eich ardystiwr hyd yn oed os nad ydynt wedi eich adnabod ers dros 2 flynedd.

Mae'r rhestr isod yn rhoi manylion y proffesiynau sy'n gallu ardystio pwy ydych chi.

- Aelod o staff addysgu yn y man lle'r ydych yn astudio eich cwrs optometreg neu opteg fferyllol. **Mae'n dderbyniol i chi fod wedi eu hadnabod ers llai na 2 flynedd.**

**Ar gyfer pob ardystiwr arall a restrir isod, rhaid iddynt fod wedi adnabod yr ymgeisydd ers dros 2 flynedd.**

- Optometrydd cofrestredig neu optegydd cyflenwi cofrestredig.
- Ymarferydd meddygol neu ofal iechyd cofrestredig (gan gynnwys meddygon, deintyddion, fferyllwyr).
- Gweithiwr proffesiynol cofrestredig fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, peiriannydd, pensaer neu gyfrifydd (rhaid i'r cyfrifwyr fod wedi cofrestru ag ICAEW, sef Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, neu ICAS, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban, neu Gyfrifwyr Siartredig Iwerddon).

- Ynad Heddwch.
- Pennaeth y sefydliad addysgol a roddodd gymhwyster i'r ymgeisydd, neu berson sydd wedi'i awdurdodi gan bennaeth y sefydliad (yn ymarferol athro neu ddarlithydd mewn ysgol neu goleg lle cawsoch gymhwyster).
- Gweinidog yr Eglwys, Rabbi, Imam neu swyddog crefyddol arall sy'n dderbyniol gan y Cyngor Optegol Cyffredinol.
- Cynghorydd.

## **Camau i'w dilyn i ddarparu eich dogfen adnabod ardystiedig**

**Cam 1:** Yr ardystiwr i lenwi a llofnodi'r ffurflen ar dudalen 5.

**Cam 2:** Yr ardystiwr i ardystio'r ddogfen adnabod.

Bydd angen i'r ymgeisydd benderfynu ar y math o ddogfen adnabod i'w darparu, fel y disgrifir isod.

### **Opsiw 1 – Ffurflen Llun Maint Pasbort Ardystiedig (tudalen 6)**

Dylid glynu'r llun i'r ffurflen. Bydd yr ardystiwr wedyn yn cwblhau'r ffurflen drwy ychwanegu enw'r ymgeisydd, ei enw ei hun, ei lofnod, a dyddiad llofnodi'r ffurflen.

### **Opsiw 2 – Dogfen Adnabod Ardystiedig (tudalen 7)**

Darparu llungopi ardystiedig clir o un o'r dogfennau adnabod canlynol a rhaid i'r ddogfen fod yn ddilys:

- Pasbort
- Cerdyn Adnabod Cenedlaethol yr UE
- Trwydded yrru'r DU
- Cerdyn adnabod myfyriwr

Rhaid i'r ardystiwr fod wedi gweld y ddogfen adnabod wreiddiol, a rhaid rhoi'r canlynol ar y llungopi.

1. Ysgrifennu neu stampio "Rwy'n ardystio ei fod yn gopi gwirioneddol o'r ddogfen wreiddiol a welais".
2. Llofnod a dyddiad.
3. Eich enw mewn prif lythrennau (os ydych yn gweithio mewn proffesiwn rheoledig mae angen i chi hefyd roi eich rhif cofrestru).

### Cam 3: Uwchlwytho ID ardystiedig i'ch ffurflen gais

Rhaid uwchlwytho'r ffurflen ardystio a'r ddogfen adnabod ardystiedig yng nghan 5 o 6 y ffurflen gais - <https://optical.org/en/registration/join-the-register/register-as-a-student/apply-to-join-the-student-register/>

Sylwch y bydd angen i chi roi cyfeiriad swyddogol y wefan i gadarnhau pwy yw eich ardystiwr ar y ffurflen gais.

Yn achos gweithiwr proffesiynol rheoledig, dyma fydd y wefan swyddogol lle gallwn ni roi ei rif cofrestru i gadarnhau pwy ydyw. Ar gyfer ardystwyr sydd ddim yn weithwyr proffesiynol rheoledig, rhaid i ni gael y wefan swyddogol sy'n dangos eu henw a'u swydd, er mwyn i ni allu cadarnhau pwy ydynt.

Upload your signed identification form. Please press shift on the keyboard and click the mouse to upload multiple documents. \* ?

Choose File

Upload your verified identification. Please press shift on the keyboard and click the mouse to upload multiple documents. \* ?

Choose File

[Back](#) [Next](#)

Wrth lwytho nifer o ffeiliau i fyny, cliciwch "Choose File", clicio'r botwm shift ar y bysellfwrdd, clicio'r ffeiliau rydych eisiau eu llwytho i fyny, a chlicio "Open". **Sylwch fod cyfyngiad maint o 10MB ar gyfer y ffeiliau.**

## Ffurflen Adnabod Myfyrwyr y Cyngor Optegol Cyffredinol

**Rhaid i'r person sy'n ardystio'r ddogfen adnabod lenwi'r ffurflen hon. Ni all y llofnod fod yn electronig.**

Cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n ardystio eich llun neu ddogfen.

1. Darllenwch y canllawiau (tudalennau 1 i 3) yn y ddogfen hon.
2. Llenwch y ffurflen ardystio ar dudalen 5.
3. Dylech ardystio naill ai'r llun neu'r ddogfen adnabod fel y disgrifir isod.

- Opsiwn 1 (gweler tudalen 6) – Ffurflen Llun Maint Pasbort Ardystiedig. Darperir hyn drwy lenwi a llofnodi'r ffurflen.

Neu

- Opsiwn 2 (gweler tudalen 7) – Dogfen Adnabod Ardystiedig. Darperir hyn drwy gadarnhau eich bod wedi gweld y gwreiddiol a thrwy ychwanegu'r anodiad a'r llofnod gofynnol fel y disgrifir isod.

4. Bydd angen i chi roi cyfeiriad swyddogol y wefan i gadarnhau eich swydd a phwy ydych chi. Yn achos gweithiwr proffesiynol rheoledig, dyma fydd y wefan swyddogol lle gallwn ni roi eich rhif cofrestru i gadarnhau pwy ydych chi. Os ydych yn ardystiwr ond ddim mewn proffesiwn rheoledig, mae'n rhaid i ni gael y wefan swyddogol sy'n dangos eich enw a'ch swydd er mwyn i ni allu cadarnhau pwy ydych chi (bydd yr ymgeisydd yn cynnwys hyn yn y ffurflen ar-lein).

Gellir llenwi'r ffurflen isod drwy deipio yn y blychau neu gellir ei llenwi â llaw. Does **dim modd** i lofnod yr ardystiwr fod yn electronig.

**Ffurflen Ardystio**

Enw llawn yr ymgeisydd at ddibenion cofrestru	
Enw llawn yr ardystiwr	
Swydd	
Enw'r gofrestr broffesiynol, a'r rhif cofrestru (os yw'n berthnasol).	
Cyfeiriad gwaith yr ardystiwr	
Cyfeiriad e-bost gwaith	
Rhif ffôn gwaith	
Rwy'n cadarnhau fy mod yn adnabod yr ymgeisydd ers dros 2 flynedd. Nid yw'n berthnasol i aelod o staff addysgu yn y man lle mae'r ymgeisydd yn astudio cwrs optometreg neu opteg fferyllol.	Ydw, rwy'n cadarnhau  Nid yw'n berthnasol gan fy mod yn aelod o staff addysgu yn y man lle'r ydych yn astudio eich cwrs optometreg neu opteg fferyllol.
Rwy'n cadarnhau nad wyf yn perthyn i, mewn perthynas, nac yn byw yn yr un cyfeiriad â'r ymgeisydd.	Ydw, rwy'n cadarnhau  Nac ydw
Llofnod (ni chaiff fod yn electronig)	
Dyddiad (Rhaid i'r dyddiad fod o fewn 3 mis i'r cais)	

**Opsiwn 1 – Ffurflen Llun Maint Pasbort Ardystiedig**

Gludo llun yn fan hyn.
------------------------

Enw llawn yr ymgeisydd at ddibenion cofrestru	
Enw llawn yr ardystiwr	
Dyddiad ardystio'r llun	
<b>Drwy lofnodi'r ddogfen hon rydych yn cadarnhau mai llun y person sy'n gwneud y cais yw hwn</b>	
Llofnod yr ardystiwr (does dim modd iddo fod yn electronig)	
Rhif cofrestru (yn berthnasol i ardystwyr sy'n gweithio mewn proffesiwn rheoledig yn unig)	

